Cofnodion cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Glyndŵr a gynahaliwyd **ddydd Gwener, 15 Gorffennaf 2022** am 9.00am yn ystafell B103, Prifysgol Glyndŵr, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW.

**Presennol**
Jim Barclay
Paul Barlow
Yr Athro Martin Chambers
Dr Leigh Griffin (Cadeirydd)
Yr Athro Maria Hinfelaar
Lauren Hole
Claire Homard
Celia Jenkins
Yr Athro Sandra Jowett
Paul McGrady
Judy Owen
Amy Rowley
Askar Sheibani
David Subacchi
Richard Thomas

**Swyddogion:**
Val Butterworth *(Clerc y Bwrdd)*
David Elcock *(Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid)*
Yr Athro Richard Day *(PVC Research)*
Yr Athro Claire Taylor *(Dirprwy Is-Ganghellor)*
Lynda Powell *(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)

**Ymddiheuriadau:**
Colin Heron
Pete Gibbs *(Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)*
Sally Lambah
Diane McCarthy
Yr Athro Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships)*
David Sprake
Maureen Wain

| **21.92** | **Adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol** | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol<br>(ii) Cylch gorchwyl y Pwyllgor wedi'u diweddaru<br>(iii) Polisi a Gweithdrefn Gweithgareddau Allanol a chadw'r taliadau cysylltiedig<br>(iv) Canllawiau i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol: trefniadau taliadau diswyddo<br>(v) Polisi a Gweithdrefn Cydnabyddiaeth Ariannol<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnu sylw at y broses a ddilynwyd, y data meincnodi a'r adroddiadau perfformiad a ystyriwyd. Canmolodd yr aelodau safiad yr Is-Ganghellor ynghylch ei dyfarniad cyflog, gan nodi bod hyn yn cynrychioli cwtogiad mewn tâl mewn termau go iawn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYMERADWYO diweddariad Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

| | | |
|---|---|---|
| | CYMERADWYO'R polisïau, gweithdrefnau a'r canllawiau wedi'u diweddaru, fel y'u cyflwynwyd, am gyfnod o dair blynedd arall. | |
| **21.93** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. | |
| **21.94** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant o ran eitemau ar yr agenda. | |
| **21.95** | **Gweithredoedd y Cadeirydd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y gweithredoedd gan Gadeirydd y Bwrdd i gymeradwyo dyfarnu dau gontract, ar y cyd â Chadieyrdd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, y ddau'n ymwneud â gwariant cyfalaf Campws 2025.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.96** | **Aelodaeth** | |
| | *Gadawodd Paul Barlow y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.*<br><br>**Derbyniwyd:**<br>Argymhellion gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ynghylch aelodaeth y Pwyllgor ac adnewyddu cyfnod mewn swydd Paul Barlow ac adnewyddu ei rôl fel Is-gadeirydd y Bwrdd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Roedd y Cadeirydd wedi cynnal cyfarfod â Richard Campbell a Liam Wynne a oedd i ymuno â'r Bwrdd fel llywodraethwyr annibynnol ar 1 Medi 2022.<br><br>Cynigiodd yr Is-Ganghellor yr Athro Martin Chambers fel cyfarwyddwr anweithredol Glyndŵr Innovations Ltd. Gyda Jim Barclay yn gyfarwyddwr anweithredol eisoes byddai hyn yn cryfhau Bwrdd GIL a throsolwg y Bwrdd dros weithgareddau'r is-gwmnïau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO<br>• ailbenodi Paul Barlow i'r Bwrdd Llywodraethwyr a'i ailbenodi yn Is-gadeirydd y Bwrdd.<br>• penodi Claire Homard yn Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br>• penodi David Subacchi yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn 2022/23.<br>• penodi Diane McCarthy yn aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br>• penodi Maureen Wain yn aelod o'r Panel Craffu Ansawdd a Safonau.<br>• penodi Richard Campbell yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.<br>• penodi Martin Chambers yn gyfarwyddwr anweithredol i Fwrdd Glyndŵr Innovations Ltd, yn ddarostyngedig i gymeradwyo hynny gan Fwrdd GIL yn unol â'i Erthyglau.<br><br>• CADARNHAU ailbenodi Colin Heron yn lywodraethwyr enwebedig y Bwrdd Academaidd am ail gyfnod o bedair blynedd, a<br><br>• CYTUNO i dderbyn cynnig trwy ddosbarthu neges e-bost ynghylch penodi llywodraethwr annibynnol i Fwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru. | |
| **21.97** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai 2022. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>Bod y cofnodion yn gofnod teg a chywir o'r cyfarfod. | |
| **21.98** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**21.98.01 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (cofnod 21.86.03)**<br>Derbyniwyd tri mynegiad o ddiddordeb ynghylch rôl yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2022/23. Roedd Cadeirydd y Bwrdd wedi cyfarfod â'r Athro Sandra Jowett ac Amy Rowley a byddant yn gweithio efo'i gilydd yn y rôl. Roedd Colin Heron wedi mynegi diddordeb hefyd, ond nid oedd y Cadeirydd wedi cael cyfle i drafod y mater ag ef eto. Yr hoff ddewis fyddai i'r tri a oedd wedi mynegi diddordeb yn gweithio efo'i gilydd i hyrwyddo materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws y Bwrdd yn fwy eang.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.99** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cynnig yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Brifysgol ystyried newid arfaethedig i enw'r brifysgol o Brifysgol Glyndŵr University i Brifysgol Wrecsam/Wrexham University.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-gadeirydd yr adroddiad a'r rhesymeg am gynnig newid enw'r Brifysgol. Cymeradwyaeth y Bwrdd i ddechrau ymgynghoriad â rhanddeiliaid oedd y cam cyntaf, ac yn rhan o'r cam 'anffurfiol.' Byddai angen dod ag achos busnes llawn a chanlyniadau'r ymgynghori â rhanddeiliaid yn ôl i'r Bwrdd yn yr Hydref i wneud penderfyniad terfynol ynghylch newid yr enw.<br><br>Nid yw'r Brifysgol yn dymuno colli ei chysylltiad ag Owain Glyndŵr, sy'n adlewyrchu ei hunaniaeth Gymraeg. Awgrymwyd y byddai enwi adeilad arwyddocaol neu ailenwi campws Ffordd yr Wyddgrug yn gampws Glyndŵr, a chyfathrebu hyn yn rhan o'r ymgynghori â rhanddeiliaid, yn cynorthwyo i roi sicrwydd i'r gymuned Gymraeg fod yr hunaniaeth Gymreig yn cael ei chadw er gwaethaf y newid enw.<br><br>Roedd gan y Myfyriwr Lywodraethwyr bryderon ynghylch y newid enw arfaethedig. Roedd y rhain yn ymwneud â budd enw newydd i fyfyrwyr cyfredol a myfyrwyr y dyfodol; y cyfnod amser a gymrodd i sefydlu Prifysgol Glyndŵr Wrecsam fel brand; y potensial i fyrhau'r enw yn 'U of W' yn Saesneg a allai achosi dryswch posibl â Phrifysgolion eraill yn dechrau efo 'W'; y potensial o greu pryder ymhlith y gymuned Gymraeg o symud oddi wrth yr enw Glyndŵr; a'r goblygiadau ariannol i'r Undeb Myfyrwyr os byddai angen ailfrandio Undeb Myfyrwyr Glyndŵr Wrecsam i adlewyrchu enw newydd y Brifysgol.<br><br>Eglurwyd na fyddai gwerthoedd y Brifysgol yn newid a'r bwriad oedd atgyfnerthu brand a hunaniaeth y Brifysgol a chyfoethogi'r cyfleoedd marchnata.<br><br>Roedd angen i'r rhesymeg dros newid yr enw fod yn glir iawn ar gyfer yr ymgynghori â rhanddeiliaid a fyddai'n rhoi cyfle i amrediad eang o randdeiliaid fynegi eu barn. Pwysleiswyd bod mwyafrif y prifysgolion eraill yng Nghymru yn cynnwys eu lleoliad yn eu henw. Gallai'r ymgynghoriad arwain at gynigion gwahanol i Brifysgol Wrecsam/ Wrexham University, fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn rhy gynnar i ddefnyddio Dinas yn y teitl gan fod dyfarnu statws dinas i Wrecsam wedi digwydd mor ddiweddar. Nodwyd y byddai angen strategaeth gyfathrebu dda. Gallai gymryd 12 i 18 mis i gwblhau'r dwy ran y broses lawn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO dechrau'r cam anffurfiol i wneud diwygiadau i'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu sy'n cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch yr enw newydd a gynigir, Prifysgol Wrecsam/Wrexham University, a cheisio argymhelliad Prif Weinidog Cymru i'r Cyfrin Gyngor ynghylch cymeradwyo'r enw newydd. | |
| **21.100** | **Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Llywydd yr Undeb Myfyrwyr, mis Mehefin 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad ysgrifenedig, yn cynnwys y byddai'r Prif Weithredwr newydd, Kate Little, yn dechrau ei swydd ar 8 Awst ac y byddai'r Prif Weithredwr interim, Scott Farmer, yn gadael ar 12 Awst. O ran materion Llais y Myfyriwr nodwyd eu llwyddiannau a'u hymwneud mewn nifer o feysydd yn cynnwys lledaenu UNITU i gynnwys sefydliadau partner, y prosiect dadansoddeg dysgu a'r Brifysgol yn mabwysiadu proses o hunan ardystio saith diwrnod i'r myfyrwyr.<br><br>Tynnwyd sylw at ddull trefnus yr Undeb Myfyrwyr o ymgysylltu â myfyrwyr a diffinio problemau myfyrwyr, ynghyd â'r cynlluniau ar gyfer Ffair y Glas a digwyddiad newydd, Gŵyl y Glas. Amlinellwyd blaenoriaethau'r Undeb Myfyrwyr ar gyfer 2022/23 hefyd, yn cynnwys: cynyddu ymgysylltu â myfyrwyr; cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a chymdeithasau; cynyddu nifer y cynrychiolwyr cwrs a sicrhau eu bod yn aelodau o gyrff mwyaf priodol y Brifysgol; datblygu'r Cyngor Myfyrwyr a gweithio'n agos â'r Brifysgol ar draws ei holl gampysau yn achos digwyddiadau, ymgyrchoedd a'r broses cyfoethogi ansawdd.<br><br>Esboniwyd manylion problem gofrestru a achoswyd gan fater technegol a oedd wedi effeithio ar fyfyrwyr o ran cofrestru, cynefino a thalu eu cyllid myfyrwyr yn hwyr. Roedd y mater technegol yn y system cofnodion myfyrwyr ac wedi'i ddatrys erbyn hyn.<br><br>Croesawyd y diweddariad clir o gynnydd y swyddogion yn erbyn eu hamcanion.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.101** | **Cyllideb 2022/23** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cyllideb arfaethedig 2022/23 ar gyfer Grŵp y Brifysgol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y gyllideb arfaethedig y bu'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn craffu arni ac a ddiweddarwyd yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor.<br><br>Roedd y gyllideb yn rhagfynegi gwarged gweithredol o £114k cyn taliadau pensiwn Safonau Adroddiad Ariannol (FRS) ac elw yn dilyn gwaredu asedau sefydlog yn rhoi gwarged net arfaethedig o £3,364k.<br><br>Amlinellwyd effaith ariannol newydiadau strwythurol i Glyndŵr Innovations Ltd, a chynigir cyllideb ddiffyg gyda'r disgwyliad y gwneir pob ymdrech i leihau'r diffyg ym mlynyddoedd y dyfodol. Cydnabuwyd gwerth ehangach y Precision Optical System Group (POSG) i'r Brifysgol. Roedd rhai meysydd busnes a oedd yn datblygu nad oeddynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb eto e.e. incwm a gwariant o weithredu campws Manceinion. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd Prifysgolion wedi cael cyfarwyddyd i weithredu'r dyfarniad cyflog a negodwyd yn genedlaethol ar gyfer 2022/23, sef 3%. Nid oedd yr Undebau Llafur cydnabyddedig wedi derbyn hyn ac roedd gweithredu diwydiannol yn bosibl, fel y bu yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd gweithredu o'r fath yn risg isel i'r Brifysgol gan nad oedd y trothwy pleidleisio i fynd ar streic wedi'i gyrraedd yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y Brifysgol yn parhau'n ymwybodol iawn o'r sefyllfa economaidd heriol i staff a myfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cyllideb 2022/23 ar gyfer Grŵp y Brifysgol. | |
| **21.102** | **Rhagolygon ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Rhagolygon ariannol 2023/24 i 2025/26.<br>(ii) Effaith ar arian parod y Grŵp yn 2022/23 a rhagolwg ariannol 2023/24 a modelau sefyllfaoedd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad gan dynnu sylw bod y rhagolygon wedi'u seilio ar gyllideb 2022/23 wedi'i allosod i 2023/24 a 2025/26 fel sy'n ofynnol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Roedd nifer y myfrwyr a ragfynegir yn uchelgeisol ond ystyrir y gellir cyflawni hynny wrth ragweld dychwelyd i amodau cyn y pandemig ac effaith arfaethedig adolygu'r portffolio a'r Prosiect Gweddnewid.<br><br>Er bod niferoedd y myfyrwyr yn y rhaglenni nyrsio a rhaglenni iechyd cysylltiedig dan Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cael eu dangos ar wahân at ddibenion mewnol, byddent yn cael eu cynnwys yn y rhagolygon niferoedd myfyrwyr israddedig craidd wrth symud ymlaen.<br><br>Tynnwyd sylw at yr elfennau allweddol er mwyn cyflawni'r rhagolygon ariannol. Nodwyd y byddai angen adlewyrchu effaith ad-dalu benthyciad AIB yn y rhagolwg llif arian.<br><br>Byddai'r rhagolygon yn cael eu cyflwyno i CCAUC erbyn diwedd mis Gorffennaf yn y fformat a ragnodwyd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO mabwysiadu'r rhagolygun a'u defnyddio yn y gylchred adrodd flynyddol i CCAUC ym mis Gorffennaf 2022. | **DE** |
| **21.103** | **Campws 2025** | |
| | **21.103.01 Diweddariad Campws 2025**<br><br>**Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad diweddariad Campws 2025<br>(ii) Adroddiadau statws y prosiect ar gyfer labordai coridor C, y Chwarter Arloesi mewn Addysg Iechyd a'r Ganolfan Fenter, Peirianneg ac Opteg.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r adroddiad gan dynnu sylw at ganlyniad cyfrinachol y cais Grîn Pentref a Thref, yr oedd yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei gadarnhau, cwblhau gwaredu safle Stadiwm y Cae Ras, y cynnydd o ran adnewyddu coridor C a gwaith cam 1 y Ganolfan Arloesi mewn Addysg Iechyd.<br><br>Roedd y Brifysgol hefyd wedi llunio cytundeb â Llywodraeth Cymru i groesawu 50 unigolyn 18+ oed o'r Wcràin i lety myfyrwyr. Byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrecsam yn rhoi cymorth i'r unigolion hyn a bydd y Brifysgol yn cael cyllid am ddarparu'r llety preswyl.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad Campws 2025.<br><br>**21.103.02 Achos Busnes y Ganolfan Arloesi mewn Addysg Iechyd**<br><br>**Derbyniwyd:**<br>Achos busnes ar gyfer gwariant cyfalaf i gyflawni adnewyddu ac adeilad newydd cam 2A a 2B Canolfan Arloesi mewn Addysg Iechyd Prifysgol Glyndŵr.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Roedd yr achos busnes yn ymwneud â chyfalaf datblygu seilwaith fel rhan o Ran 2 y contract Gwella Addysg Iechyd Cymru. Nodwyd, fel rhan o'r arfarniad opsiynau, ystyriwyd newid defnydd adeiladau a oedd yn bodoli eisoes, ond ni fyddai'r gwaith adnewyddu a'r gwaith ar raddfa fawr a fyddai'n ofynnol i newid defnydd yr adeiladau yn darparu'r swyddogaethau sy'n ofynnol nac yn darparu arbedion addas ar y costau.<br><br>Eglurwyd bod 5% wrth gefn wedi'i gynnwys yn y prosiect yn unol â phrosiectau eraill a gyflawnwyd o fewn eu cyllideb yn flaenorol. Fodd bynnag, roedd peth ansicrwydd yn parhau ynghylch y cyflenwad a'r galw a chostau deunyddiau adeiladu. Gofynnwyd am wneud rhagor o waith ar y risgiau a'r mesurau lliniaru o gofio'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Gwnaeth yr aelodau ystyried y dylid cadw 5% ychwanegol wrth gefn gan y Bwrdd hefyd, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â'r prosiect yn uniongyrchol. Gallai'r swm wrth gefn ychwanegol hwn gael ei neilltuo o gronfeydd cyfalaf wrth gefn heb eu defnyddio.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R gwariant o £6.613m i ariannu cam 2A a 2B y prosiect Canolfan Arloesi mewn Addysg Iechyd.<br><br>CYMERADWYO bod y Bwrdd yn dal swm 5% wrth gefn ychwanegol o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn. | |
| **21.104** | **Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y cais Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil, hunan ddadansoddiad beirniadol a manylion y broses ymgeisio.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd PVC Research y cefndir a chyd-destun amcan strategol y Brifysgol yn ymgeisio am Bwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil. Roedd CCAUC yn cael ei hysbysu am y cynnydd ac wedi mynegi ei gefnogaeth anffurfiol i'r Brifysgol gyflwyno cais.<br><br>Croesawyd y cais a'r hunan ddadansoddiad beirniadol, a chydnabuwyd y gwaith sylweddol a wnaed hyd yma. Roedd yr hunan ddadansoddiad beirniadol yn amlinellu pwysigrwydd Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil i'r Brifysgol a sut y bydd yn parhau i ddatblygu ei diwylliant ymchwil y tu hwnt i roi'r pwerau. Roedd y llythyrau yn cefnogi cais y Brifysgol yn gryf a chefnogodd y Bwrdd y cais yn unfrydol.<br><br>Diolchwyd i'r Athro Sandra Jowett a Richard Thomas yn benodol am eu hadborth adeiladol ar ddrafftiau cynharach yr hunan ddadansoddiad beirniadol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cyflwyno'r cais am Bwerau Dyfarnu Gradda Ymchwil a'r hunan ddadansoddiad beirniadol i'r Cyfrin Gyngor; ac y gall Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr gyflwyno'r cais i'r Cyfrin Gyngor ar ran y Brifysgol. | |

| | | |
|---|---|---|
| **21.105** | **Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ddeilliannau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd PVC Research yr adroddiad a thynnu sylw bod y deilliannau yn fras fel y disgwyliwyd gyda'r uned asesu Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol wedi gwneud yn well na'r disgwyl. Roedd y canlyniadau'n dangos cynnydd cyson ac ymdrech ddiflino dros nifer o flynyddoedd er gwaethaf y diffyg cyllid ymchwil.<br><br>Roedd y fformiwla diwygiedig ar gyfer cyllid Ymchwil ar sail Ansawdd wedi arwain at ddyrannu peth cyllid i'r Brifysgol, a chroesawyd ychwanegu cyllid hyfforddiant ymchwil ôl-radd newydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.106** | **Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig y Bwrdd.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor y papur, gan dynnu sylw at y broses a ddilynwyd i benderfynu ar y mesurau a'r metrics terfynol yn cynnwys adborth o weithgor y Bwrdd a gyfarfu ym mis Mawrth 2022 a gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid. Roedd angen diwygio geiriad Dangosydd Perfformiad Allweddol Ymchwil 5a) i egluro bod hyn yn ymwneud â chyfran y staff *academaidd* ym mhob un o'r tri chategori Dangosydd Perfformiad Allweddol.<br><br>Atgoffwyd yr aelodau y darperir adroddiad ar y perfformiad yn erbyn y set gyflawn Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn yr Hydref bob blwyddyn, gydag adroddiadau ar rai yn amlach drwy gydol y flwyddyn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R Dangosyddion Perfformiad Allweddol. | |
| **21.107** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Rheolaeth Ariannol hyd at 31 Mai 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad a thynnodd sylw at y gwarged gweithredol a ragfynegwyd o £21k ac elw ar waredu asedau a fyddai'n arwain at warged arfaethedig o £5,303k. Roedd mesurau i liniaru'r lleihad yn yr incwm israddedigion llawn amser wedi arwain at tua £1.824m o arbedion.<br><br>Rhagfynegwyd y byddai Glyndŵr Innovations Ltd yn gwneud diffyg o £196k, ond rhagfynegwyd y byddai Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a Gwasanaethau Glyndŵr yn gwneud gwarged bach.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.108** | **Cyfrif banc yn Sri Lanka** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Cynnig i agor cyfrif banc i'r Brifysgol yn Sri Lanka gyda banc DFCC.<br>(ii) Bod y banc angen penderfyniad gan y Bwrdd.<br><br>**Adroddwyd:** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y cefndir a'r cyd-destun i'r angen i agor cyfrif banc yn Sri Lanka. Byddai'r cyfrif yn caniatáu i'r Brifysgol gasglu taliadau gan ei bartneriaid addysgol yn Sri Lanka gan nad yw banciau'r wlad yn medru trosi arian cyfred Sri Lanka i bunnoedd sterling ar hyn o bryd oherwydd diffyg cronfeydd wrth gefn tramor.<br><br>Cyfeiriodd yr aelodau at y risgiau ynghlwm ag agor y cyfrif, newidiadau yn y gyfradd gyfnewid a pheidio ag agor y cyfrif. Y risg o beidio ag agor y cyfrif fyddai'r anallu i gasglu'r arian sy'n ddyledus. Adroddwyd y gellid gwneud taliadau i asiantaethau a staff yn wlad o'r cyfrif banc hwn.<br><br>Roedd y Brifysgol angen parhau i addysgu yn y sefydliad partner ar gyfer y myfyrwyr sy'n parhau fel isafswm. Mae angen cadw'r risgiau cyfredol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg o ran partneriaid cydweithredol rhyngwladol dan adolygiad cyson a byddai'n rhan o'r diweddariadau monitro partneriaeth a fydd yn dod yn eitem sefydlog ar agendâu'r Bwrdd o 2022/23 ymlaen.<br><br>Ni fyddai unrhyw atebolrwydd personol o ran y rhai sy'n llofnodi'r dogfennau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>**PENDERFYNODD Y BWRDD** ar gyfrif(on) cyfredol a/neu gyfrif(on) cynilo a/neu gyfrif(on) adneuo o ba bynnag natur sy'n cael eu hagor, eu gweithredu a'u cau â DFCC Bank PLC, yn unol â chyfarwyddiadau'r llofnodwyr awdurdodedig, y cyfeirir atynt yma. Bod y Banc, trwy hyn, yn cael ei rymuso i anrhydeddu Sieciau, Biliau Cyfnewid a Nodiadau Addewidiol wedi'u llunio, eu llofnodi, eu derbyn neu eu gwneud ar ran Prifysgol Glyndŵr, p'un ai yw'r cyfrif neu'r cyfrifon cyfredol mewn credyd neu mewn gorddrafft, neu y gallai fynd i orddrafft os yw sieciau, archebion neu dderbynion yn cael eu llofnodi gan unrhyw ddau o'r llofnodwyr awdurdodedig a ganlyn, sef: Yr Athro G. M. Hinfelaar, Dr L. R. Griffin, Mr D.N.A. Elcock, Mrs V. M. Butterworth.<br><br>**A**<br><br>**PHENDERFYNODD YMHELLACH** bod y llofnodwyr a enwyd wedi'u hawdurdodi trwy hyn i ymrwymo i Gytundebau, Contractau a/neu lofnodi dogfennau perthnasol eraill yng nghyswllt (neu i ymwneud â) Chyfnewid Tramor a Thrafodion Deilliannol, Trafodion Sicrwyddau Incwm Sefydlog, Ailbrynu / Cildroi Ailbrynu, trafodion wedi'u cefnogi gan Sicrwyddau Llywodraeth (neu unrhyw sicrwyddau perthnasol eraill) a thrafodion Dyled Corfforaethol rhwng y Banc a'r Cwmni. | |
| **21.109** | **Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Canlyniadau lefel uchel Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor yr adroddiad gan dynnu sylw at y gyfradd ymateb dda o 78% o'i gymharu â chyfraddau ymateb o 69% yng Nghymru a'r sector. Roedd y boddhad cyffredinol yn 76.4% (pedwerydd safle yng Nghymru) o'i gymharu â 76.8% yng Nghymru a 76.3% i'r sector. Roedd y Brifysgol wedi perfformio'n uwch na'r meincnod ym mhob maes ac eithrio adnoddau dysgu. Roedd y Gyfadran Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi perfformio'n is na'r blynyddoedd blaenorol, ac roedd hyn wedi'i gydbwyso gan gynnydd yn sgorau'r Gyfadran Gwyddorau Bywyd a Chymdeithasol. Roedd gwaith yn parhau i geisio deall y rhesymau am y canlyniadau hyn fel y gellid gweithredu i adfer y sefyllfa lle bo angen.<br><br>Cafwyd boddhad myfyrwyr 100% ar gyfer y cyrsiau troseddeg a chyfiawnder troseddol a ffysiotherapi. Roedd y sgôr 'asesu ac adborth' yn y safle cyntaf yng Nghymru ar 82%, yn sylweddol uwch na'r sector (69%) a Chymru (70%). | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.110** | **Arolwg Deilliannau Graddedigion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar yr Arolwg Deilliannau Graddedigion 2019/20.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor y cefndir a'r cyd-destun i'r arolwg a oedd wedi holi'r rhai a raddiodd yn 2019/20. Cyfradd ymateb myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr oedd 51.6%, sy'n cyd-fynd â'r gyfradd ymateb o 52.1% yn y sector.<br><br>Yn nodedig roedd 84% o'r graddedigion mewn cyflogaeth neu'n astudio o'i gymharu ag 88% i'r sector. Y gweithgaredd mwyaf i raddedigion Prifysgol Glyndŵr Wrecsam oedd cyflogaeth llawn amser â thâl, yn cyfrif am 52% o'r cyn-fyfyrwyr ac yn rhoi'r Brifysgol yn y pumed safle yng Nghymru.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.111** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd ei fod bron â chwblhau ei gyfarfodydd un i un â llywodraethwyr ac y byddai'n ysgrifennu at yr aelodau gyda'i fyfyriadau yn fuan. Diolchwyd i'r aelodau am eu hamser, eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i'r Brifysgol. Byddai'n parhau i edrych ar sut y gallai'r aelodau gymryd rhan yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid.<br><br>Rhoddodd grynodeb o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf a oedd yn cynnwys: cyfarfodydd â'r llywodraethwyr newydd Richard Campbell a Liam Wynne; ymweld ag OpTIC Llanelwy a'r Ganolfan Yrfaoedd; ffilmio cyfweliad efo Llywydd yr Undeb Myfyrwyr; bod yn bresennol yn seremoni raddio Prifysgol y Plant; cyfarfod â Chadeirydd y Cyngor a Phrif Weithredwr CCAUC; a chyfarfod â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a'r Is-Ganghellor am y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.112** | **Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ym mis Mai a mis Mehefin 2022.<br>(ii) Adroddiad y cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r Adolygiad Gwella Ansawdd.<br><br>**Penderfynwyd**<br>NODI'R adroddiad a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ac adroddiad y cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu'r Adolygiad Gwella Ansawdd. | |
| **21.113** | **Adroddiad Risgiau Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodeb y risgiau corfforaethol a Map Gwres Risgiau, mis Mehefin 2022.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'r adroddiad a chadarnhaodd bod y Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r gofrestr risgiau ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin a ni fu unrhyw newidiadau yn y risgiau ers eu cyfarfod ym mis Mawrth. Roedd cais y Bwrdd i gynnwys cyflymder risgiau yn cael ei drin gan y rheolwyr a | |

| | | |
|---|---|---|
| | byddai risg benodol ynghylch recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn cael ei chynnwys yn yr Hydref.<br><br>Yn gysylltiedig â'r risgiau yn y cynllun archwilio mewnol roedd archwiliad datgarboneiddio a sefyllfa'r Brifysgol o ran bodloni targedau Sero Net, ac archwiliad y fframwaith cyflawni credydau rhan amser. Archwiliwyd diogelwch seiber a rhoddwyd sicrwydd rhannol felly byddai'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i fonitro'r maes risg hwn.<br><br>Adroddwyd y byddai'r risgiau'n cael eu hadolygu'n drylwyr yn ystod yr haf fel arfer, a byddai gohebiaeth â CCAUC yn ffurfio rhan o'r adolygiad hwnnw.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.114** | **Defnyddio Sêl y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ddefnyddio'r Sêl ar gyfer y contract â MHR International i gyflenwi system Adnoddau Dynol a Chyflogres integredig a chyda Paveaways ar gyfer adnewyddu labordai coridor C.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.115** | **Cylchlythyrau a dogfennau a gyhoeddwyd gan CCAUC a chyrff perthnasol eraill** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Crynodebau o (i) Cylchlythyr CCAUC W22/20HE ynghylch adolygu cynnwys y Siarteri i Fyfyrwyr a (ii) Canllawiau i gyrff llywodraethu a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion ynghylch materion aflonyddu a chamymddwyn rhywiol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **21.116** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **21.116.01 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2022<br>(ii) Cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor<br>(iii) Cytundeb Perthynas ddiwygiedig rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr<br>(iv) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2021/22 a chynllun gwaith 2022/23<br>(v) Adroddiad ar adnewyddu Canghellor y Brifysgol<br>(vi) Cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br><br>**Penderfynwyd:**<br><br>CYMERADWYO cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor.<br><br>CYMERADWYO'R Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr am gyfnod pum mlynedd, yn ddarostyngedig i adolygiad blynyddol.<br><br>CADARNHAU adnewyddu Colin Jackson fel Canghellor y Brifysgol hyd at 31 Rhagfyr 2025.<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2022.<br><br>NODI adroddiad blynyddol y Pwyllgor 2021/22 a chynllun gwaith 2022/23. | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI'R Cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau y cyfarfod ar 10 Mehefin wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.116.02 Y Pwyllgor Archwilio** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.<br>(ii) Cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor a chynnig ynghylch enw'r Pwyllgor.<br>(iii) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2021/22 a chynllun gweithredu 2022/23<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R cylch gorchwyl diwygiedig ac enw newydd y Pwyllgor, sef y Pwyllgor Archwilio a Risg.<br><br>NODI'R adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.<br><br>NODI Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2021/22 a chynllun gwaith 2022/23.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau y cyfarfod ar 16 Mehefin wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.116.03 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.<br>(ii) Cylch gorchwyl diwygiedig.<br>(iii) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2021/22 a chynllun gwaith 2022/23.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y pwyllgor dan ei enw newydd, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.<br><br>NODI'R adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.<br><br>NODI Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2021/22 a chynllun gwaith 2022/23.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau y cyfarfod ar 16 Mehefin wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |
| | **21.116.04 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.<br>(ii) Cylch gorchwyl diwygiedig.<br>(iii) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2021/22 a chynllun gwaith 2022/23.<br>(iv) Papur briffio am Xplore! Nature<br>(v) Papur briffio ar y newidiadau i strwythur ariannol Glyndŵr Innovations Ltd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor.<br><br>NODI'R adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022.<br><br>NODI Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2021/22 a chynllun gwaith 2022/23.<br><br>NODI bod cofnodion heb eu cadarnhau y cyfarfod ar 16 Mehefin wedi'u dosbarthu ar wahân i bapurau'r Bwrdd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | NODI'R adroddiad ar newid strwythur Grŵp o ran Glyndŵr Innovations Ltd.<br><br>NODI'R adroddiad ar weithgaredd newydd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru Cyf, Xplore! Nature. | |
| | **21.116.05 Gwyddoniaeth Gogledd Cymru** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 20 Mehefin.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cofnodion drafft. | |
| **21.117** | **Llywodraethwyr** | |
| | Tynnodd Cadeirydd y Bwrdd sylw, dan unrhyw fater arall, y byddai Celia Jenkins ac Askar Sheibani yn dod i ddiwedd eu cyfnod yn y swydd fel llywodraethwyr ar 31 Awst 2023. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr i waith y Bwrdd a dymunodd yn dda iddynt yn y dyfodol. | |

Diwedd